Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
**Llangynwyd**
**Maesteg**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF34 9RW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae wedi ei lleoli ym Maesteg a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Agorwyd yr ysgol yn 2008 gyda disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn unig. Erbyn hyn, mae 607 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 110 yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal eang Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg.

Mae 15.6% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr ychydig yn is na'r canran cenedlaethol. Mae 32.5% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 19% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, gyda llai na 0.01% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw 23% o'r disgyblion o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Mae 91% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg yn unig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2008. Mae'r tîm rheoli uwch yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn 2014-2015 yw £4,746. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Pen-y-bont ar Ogwr yw £5,210 a'r lleiafswm yw £3,855. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn yr ail safle o'r naw ysgol uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y rhan fwyaf o'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn gwneud cynnydd pynciol da
- Deilliannau disgyblion yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 am ddwy flynedd gyntaf yn yr ysgol yn gadarnhaol
- Ymddygiad disgyblion yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol yn dda
- Bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol
- Y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref o waith yr ysgol
- Trefniadau effeithiol yn yr ysgol i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Aelodau'r tîm rheoli uwch yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o gymuned yr ysgol
- Patrwm o welliannau yn y deilliannau ers sefydlu'r ysgol
- Systemau cadarn ac effeithiol i sicrhau ansawdd a blaenoriaethau gwella cynhwysfawr
- Dealltwriaeth gadarn gan y tîm rheoli uwch o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, gan gynnwys cynnal a chodi safonau a gwella medrau dysgu
- Partneriaethau effeithiol gyda darparwyr eraill i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion a sicrhau cost effeithlonrwydd yng nghwricwlwm yr ysgol

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Saesneg a Chymraeg yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgu ychwanegol

A3 Cryfhau ansawdd a sicrhau cysondeb mewn adborth athrawon i ddisgyblion ar sut i wella’u gwaith

A4 Cryfhau systemau rheolaeth i sicrhau atebolrwydd llawn ym mhob maes.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys pump TGAU A* – C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella ychydig dros y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2014 a 2013, mae perfformiad yr ysgol yn uwch na'r hyn a ddisgwylir o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim. Mae'r perfformiad hwn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 2 wedi gwella. Serch hynny, mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol ymysg y 50% is o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd wedi aros yn gyson ac yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion.

Yn 2014, yn y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, ac yn y dangosydd pynciau craidd , ceir bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched. Mae'r bwlch yn fwy na'r bwlch cyfartalog ymysg ysgolion y teulu. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ddim yn gymwys ychydig yn fwy na'r bwlch yn y teulu o ysgolion tebyg. Yn 2014, ceir blwch arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch mewn perfformiad y bechgyn a merched yn y pynciau craidd, yn gyffredinol yn llai nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 mewn mathemateg dros y ddwy flynedd diwethaf yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2013, roedd perfformiad lefel 2 Saesneg yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn 2014, bu cynnydd ym mherfformiad sydd yn agos at gyfartaledd y teulu o ysgolion. Yn y Gymraeg, roedd perfformiad yr ysgol yn 2014 wedi dirywio ychydig wrth gymharu â pherfformiad 2013. Yn 2014, mae'r perfformiad yn is na pherfformiad ysgolion tebyg. Roedd perfformiad lefel 2 gwyddoniaeth dros y ddwy flynedd diwethaf ychydig yn is na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gosod yn ysgol ymhlith y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a Saesneg yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu'n uwch yn y pynciau craidd yn unigol yn is nag ydynt mewn ysgolion eraill tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Yn 2014, llwyddodd y rhan fwyaf i gyrraedd y trothwy lefel 1 neu trothwy lefel 2 ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Llwyddodd llawer i ennill lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

Llwyddodd pob disgybl i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 1 neu 2 yn 2014. Does dim un disgybl wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 heb gymhwyster cydnabyddedig ers i'r ysgol agor yn 2008. Gwnaeth bob disgybl barhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 y llynedd.

Mae'r ysgol wedi perfformio'n gymharol dda yn ei set gyntaf o ganlyniadau uwch gyfrannol yn y chweched dosbarth.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dda iawn ar lefel 5 neu'n uwch gyda phob mesur yn cyrraedd neu'n well na chyfartaledd yr un grŵp o ddisgyblion yn y teulu o ysgolion. Nid yw'r perfformiad cystal ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg a Chymraeg. Mae perfformiad y disgyblion hyn ychydig yn uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd gwerthfawr wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae llawer yn defnyddio'r iaith yn briodol yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae gan bron pob disgybl ymagwedd gadarnhaol tuag at yr iaith ac maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd sydd yn yr ysgol i ddatblygu eu medrau ieithyddol.

Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r disgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn llawer o wersi. Mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar waith blaenorol, yn defnyddio terminoleg pwnc benodol yn gywir ac yn datblygu medrau newydd. Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd buan iawn ac yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Serch hynny, mewn ychydig iawn o wersi, mae diffyg diddordeb a chynnydd gan ychydig o ddisgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn cydweithio'n barchus ac yn effeithiol mewn parau a grwpiau. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar yr athro a'i gilydd, ac yn barod iawn i gyfrannu ar lafar.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad yn briodol mewn Cymraeg a Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Serch hynny, mae lleiafrif o ddisgyblion yn betrusgar wrth ddarllen o flaen y dosbarth. Mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg ac yn defnyddio atalnodi, gramadeg a geirfa yn gywir i gefnogi ystyr ac arddull eu gwaith. Mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod briodol o destunau ar draws y pynciau ac yn datblygu medrau ysgrifennu annibynnol. Serch hynny, mewn ychydig iawn o feysydd, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon aml, yn arbennig y disgyblion llai galluog.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu medrau rhifedd. Mae llawer yn hyderus wrth ddefnyddio pedair rheol rhif, ffracsiynau a degolion.

Mae’r rhan fwyaf yn medru defnyddio dulliau cyfrif priodol gan gynnwys cyfrif yn y pen ac yn defnyddio cyfrifiannell lle’n briodol. Mae llawer yn trin data yn hyderus ac yn llunio graffiau cywir i arddangos data mewn nifer o bynciau.

**Lles: Da**

Teimla bron pob disgybl yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi i ofyn am gymorth. Maent bron i gyd yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n effeithiol â’r achosion prin o fwlio. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol, yn cynnwys tîm rygbi merched. Teimla llawer o’r disgyblion fod yr ysgol yn eu dysgu am bwysigrwydd bwyta a byw yn iach.

Mae presenoldeb disgyblion wedi codi ers 2011 ac yn uwch na’r disgwyliadau mewn tair o’r pedair blynedd diwethaf. Nid oes yr un disgybl wedi ei wahardd yn barhaol o’r ysgol ers ei sefydlu ac mae nifer y gwaharddiadau dros dro wedi gostwng yn sylweddol dros y dwy flynedd diwethaf.

Mae’r cyngor ysgol wedi cyfrannu’n briodol at agweddau megis adnoddau, yr arlwy yn y ffreutur ac addasiadau i’r amgylchedd ffisegol, ond nid ydynt yn trafod safon y dysgu ac addysgu. Mae gwaith y grŵp eco wedi cael effaith fuddiol ar fywyd a gwaith yr ysgol trwy brosiectau megis plannu coed a hyrwyddo Masnach Deg. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu gweithgareddau cymunedol yn dda, megis parti i’r henoed lleol a’r Ffair Nadolig. Un nodwedd arbennig yw gwaith y pwyllgor iaith i sefydlu gorsaf radio ysgol a chreu podcastiau i'w darlledu i weddill yr ysgol.

Mae datblygiad medrau cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn dda. Dangosant barch at staff ac ymwelwyr a’r rhan fwyaf yn dangos consyrn a gofal at eu cyfoedion. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus iawn mewn grwpiau ac mae gan lawer o’r disgyblion y cymhelliant a’r medrau angenrheidiol i symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu bywyd neu waith. Mae bron pob un yn brydlon i’w gwersi ac yn ymddwyn yn dda iawn yn y gwersi, ar hyd y coridorau ac o amgylch yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ac yn darparu ystod addas o bynciau sy’n sicrhau bod y gofynion statudol ac anghenion a diddordebau amrywiol y disgyblion yn cael eu diwallu. Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr gydag ysgol a choleg lleol i ehangu dewisiadau’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth. Adeilada cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn effeithiol ar brofiadau cyfnod allweddol 2, gydag enghreifftiau o waith pontio buddiol yn y pynciau craidd. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau drwy’r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4 a’r chweched dosbarth.

Cynllunia’r ysgol yn strategol i ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn dda. O ganlyniad i ddosraniad synhwyrol agweddau o’r fframwaith, ceir cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygu’r medrau hyn ar draws y pynciau. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn derbyn cefnogaeth ychwanegol effeithiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar lefel briodol i bob unigolyn.

Mae pob disgybl yn cael cyfle tu allan i oriau ysgol i ehangu eu profiadau wrth gymryd rhan mewn arlwy o weithgareddau niferus ac ymweliadau allanol gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n nerthol i hybu Cymreictod ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn elfen gref o waith yr ysgol. Ceir rhaglen gyfoethog iawn o weithgareddau allgyrsiol sy'n rhoi cyfle gwerthfawr i ddisgyblion wneud defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, gan gynnwys clybiau darllen a dadlau, tripiau tramor, eisteddfodau a chyrsiau preswyl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer meithrin dealltwriaeth o ddatblygiadau cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol. Trefnir digwyddiadau penodol yn achlysurol i godi ymwybyddiaeth o'r maes, er enghraifft ymgeisio am statws ysgol Fasnach Deg, teithiau'r adran hanes i'r Ffosydd yng Ngwlad Belg ac ymweliad blynyddol â'r Senedd ym Mae Caerdydd.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes ac yn fodelau iaith effeithiol yn y gwersi a arsylwyd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthynas waith dda ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn frwdfrydig dros eu pwnc ac yn llwyddo i feithrin ymagweddau positif yn y disgyblion. Mae llawer o athrawon yn paratoi gwersi yn drylwyr, yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cynnal amgylchedd dysgu pwrpasol. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae athrawon yn paratoi gweithgareddau cychwynnol effeithiol sy'n sicrhau cysylltiad amlwg â'r gwaith blaenorol ac yn gosod sylfaen gadarn i'r gwaith newydd.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn paratoi ystod eang o weithgareddau effeithiol a phwrpasol, ac yn trefnu gwaith unigol, gwaith pâr a gwaith grŵp defnyddiol. Yn y gwersi hyn, defnyddir ystod eang o strategaethau dysgu sy'n cynnal diddordeb disgyblion. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o adnoddau o safon uchel yn effeithiol i gynnal y gweithgareddau amrywiol, yn cynnwys defnydd dychmygus o gyfarpar cyfoes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i ennyn diddordeb y disgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, mae cyflymder y wers yn rhy araf, ac o ganlyniad, nid yw'r athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae ansawdd holi'r athrawon yn dda iawn, yn ymestyn medrau meddwl y disgyblion yn effeithiol ac yn cynnwys pawb yn y dosbarth. Mewn ychydig o wersi, mae cwestiynu treiddgar i ddisgyblion mwy galluog yn eu herio er mwyn iddynt ddyfnhau eu dealltwriaeth. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae athrawon yn amseru'r tasgau yn effeithiol i sicrhau defnydd arbennig o dda o amser.

Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gefnogi'r disgyblion llai galluog yn y gwersi. Serch hynny, mewn tua hanner y gwersi, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon trwyadl i ddiwallu anghenion disgyblion llai galluog.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynnig adborth llafar adeiladol i ddisgyblion ar eu dealltwriaeth a'u cynnydd. Nid oes gan yr ysgol bolisi asesu ysgol gyfan, ac mae adrannau unigol yn penderfynu ar y dulliau asesu perthnasol. O ganlyniad, mae amrywiad yn ansawdd sylwadau ym marcio'r athrawon. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd gan ddefnyddio canllawiau marcio'r adran. Mae llawer yn paratoi sylwadau gwerthfawr ac adeiladol sydd o gymorth i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Serch hynny, mae gormod o amrywiaeth yn safon y marcio a sylwadau i ddisgyblion. O ganlyniad, nid yw'r adborth yn ddigon clir i alluogi disgyblion i wella safon eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae rhieni a gofalwyr yn derbyn adroddiadau interim a llawn yn rheolaidd ar gynnydd y disgyblion. Mae'r adroddiadau yn gynhwysfawr, yn werthfawr ac yn cynnwys arweiniad clir i rieni, gofalwyr a disgyblion ar sut i wella meysydd penodol yn eu gwaith.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ac arweiniad gwerthfawr er mwyn hybu iechyd a lles y disgyblion trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r profiadau amrywiol o fewn y rhaglen hon yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd a ffitrwydd, diogelwch personol ac iechyd meddwl llesol. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol i gefnogi'r rhaglen ac mae bron pob un disgybl yn mwynhau ac yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae'r themâu wythnosol sy'n cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnodau boreol a'r gwasanaethau torfol yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r strategaethau i olrhain cynnydd a gwella presenoldeb yn gadarn ac mae cyfraniad y swyddog lles addysg a'r swyddog ymgysylltu teuluol yn cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo presenoldeb disgyblion sydd â phatrymau presenoldeb sy'n destun pryder. Mae'r strategaethau ysgol-gyfan i hyrwyddo ymddygiad da megis y 'Siarter Ymddygiad' a'r cynllun gwobrwyo wedi lleihau nifer y gwaharddiadau tymor penodol yn sylweddol.

Caiff disgyblion bregus sydd ag anghenion emosiynol dwys a phroblemau ymddygiadol eu cefnogi yn effeithiol drwy gynlluniau ymyrraeth a'r 'Clwb Maeth' dyddiol sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gydag asiantaethau allanol cefnogol megis y seicolegydd addysg a gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau addysg unigol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnig arweiniad na strategaethau penodol i athrawon i gynllunio'n briodol ar gyfer y disgyblion hyn. Nid yw'r trefniadau ffurfiol ar gyfer adolygu cynlluniau addysg unigol yn ddigonol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol, cyfeillgar a chynhaliol Gymraeg. Mae'r ethos yn adlewyrchu'r arwyddair yr ysgol yn effeithiol, sef dysg, dawn, dyfodol. Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau perthnasol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac maent yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig pob cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac academaidd yn llawn, ac yn herio achosion o ystrydebu'n nerthol.

Mae trefniadau clir a gofalus ar waith ar gyfer disgyblion ag anabledd.

Mae arddangosfeydd deniadol o waith disgyblion yn yr ystafelloedd dysgu ac ar hyd y coridorau. Mae adnoddau dysgu da o fewn yr ysgol gyda digon o adnoddau dysgu

pwrpasol a deniadol. Mae cyfarpar TGCh yn cyfrannu tuag at greu awyrgylch cyfoes. Mae adnoddau ar gyfer disgyblion yn dda iawn, gan gynnwys y toiledau, cyfleusterau chwaraeon a darpariaeth ar gyfer y chweched dosbarth. Mae'r adeiladau yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n lân iawn.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth a'r tîm rheoli uwch weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu addysg Gymraeg o'r safon uchaf, rhoi cyfle cyfartal i bawb a sicrhau diwylliant hunanfeirniadol. Caiff y weledigaeth hon ei choleddu gan y rhan fwyaf o'r staff. Mae aelodau'r tîm rheoli uwch yn datblygu'n briodol yn eu rolau ac yn cyfleu disgwyliadau uchel i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae hwn wedi arwain at addysgu da, deilliannau cadarnhaol yn y dangosydd lefel 2 gan gynnwys y Gymraeg neu Saesneg a mathemateg ac ethos cryf Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi llwyddo i sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r tîm rheoli uwch yn cydweithio'n agos ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol. Yn gyffredinol, caiff cyfrifoldebau eu dosrannu'n deg. Fodd bynnag, mae gan ychydig iawn o aelodau'r tîm uwch ormod o gyfrifoldebau. Mae hyn yn cyfyngu ar yr amser sydd ganddynt i gyflawni'u rolau'n llawn. Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwneud defnydd da o ddata i arfarnu effaith eu darpariaeth ac i osod targedau uchelgeisiol.

Mae calendr o gyfarfodydd pwrpasol gan yr ysgol ag agendâu sydd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau priodol. Mae cofnodion cyfarfodydd y tîm rheoli uwch yn cynnwys pwyntiau gweithredu addas. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r cofnodion yn dynodi'r cyfrifoldeb i gyflawni'r gweithredoedd ynddynt neu'n gosod dyddiad cwblhau. Mae mwyafrif o gofnodion cyfarfodydd adran yn cyfeirio'n briodol at faterion pwysig megis addysgu ac asesu. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r cofnodion hyn yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion gweinyddol. Dim ond lleiafrif o'r cofnodion hyn sy'n cynnwys pwyntiau gweithredu ac ychydig yn unig sy'n pennu cyfrifoldeb a therfynau amser i'w cyflawni. Mae'r diffygion hyn yn cyfyngu ar atebolrwydd a gallu arweinwyr i wella perfformiad lle bo'u hangen.

Mae gan yr ysgol system rheoli perfformiad sy'n cynnwys targedau uchelgeisiol ac yn canolbwyntio'n briodol ar feysydd allweddol i'w gwella. Mae'r ysgol wedi cynnig her a chefnogaeth addas i ychydig o adrannau penodol i wella'u perfformiad. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth herio tanberfformio o fewn ychydig o feysydd pwysig, gan gynnwys y trothwy lefel 2 yn y Gymraeg a'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn nerthol i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft drwy gynllunio'n drwyadl ar gyfer llythrennedd a rhifedd a datblygu medrau dwyieithog y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn datblygu'n briodol yn eu rôl. Maent yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o arwyddocâd data perfformiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyflwyno digon o her i'r ysgol ar sail y wybodaeth hon.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanarfarnu effeithiol sydd wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae hyn yn cynnwys rhaglen werthfawr o adolygiadau adran sy'n arfarnu ystod gynhwysfawr o agweddau gyda sylw priodol i fesur effaith y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ar safonau cyflawniad. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac wedi hyrwyddo Cymreictod ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn casglu tystiolaeth uniongyrchol gynhwysfawr trwy arsylwi gwersi, craffu ar waith a holi disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer gwrando ar lais rhieni. Defnyddia'r rheolwyr ar bob lefel ystod o ddadansoddiadau data yn effeithiol i fonitro perfformiad yr ysgol ac adrannau ac i bennu blaenoriaethau i sicrhau gwelliant. Cefnogir y prosesau trwy hyfforddiant effeithiol gan y tîm rheoli uwch. Golyga hyn fod yr ysgol ac adrannau yn llwyddiannus wrth adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o feysydd nid yw'r ysgol wedi adnabod gwendidau amlwg ac felly heb gynllunio gwelliant.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen gryno a defnyddiol sy'n cwmpasu holl agweddau'r fframwaith arolygu cyffredin. Mae'n cynnig trosolwg clir a chywir o ran fwyaf o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen sylw pellach. Mae'r ysgol yn llwyddo i dderbyn cyfraniadau i'r hunanarfarniad gan y rhan fwyaf o staff yn gyson trwy drefn electronig gyfoes.

Mae adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhannu'r un drefn â'r adroddiad ysgol-gyfan ac yn adnabod y cryfderau a gwendidau yn effeithiol. Gwneir defnydd da o dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu a dysgu o fewn adrannau, ond mewn ychydig o bynciau mae arfarniadau yn tueddu i ddisgrifio ac i gyfiawnhau ychydig o agweddau.

Mae cysylltiad clir rhwng y meysydd i'w datblygu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol, gan gynnwys cynnal a chodi safonau, gwella medrau dysgu, cau'r bwlch a gwella perfformiad disgyblion mwy abl a thalentog. Cyfeiria'r cynllun gwella ysgol yn briodol at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth a systemau priodol yn eu lle wrth i'r ysgol ddatblygu.

Mae fformat cyson a phriodol i gynlluniau gwella ysgol a rhai adrannol. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn cynnwys camau gweithredu priodol i ddiwallu blaenoriaethau, meini prawf mesuradwy a thargedau heriol ar gyfer gwella. Mewn ychydig o gynlluniau adrannol, nid yw'r gweithrediadau yn ddigon trwyadl. Mae trefn effeithiol o fonitro gweithrediad y cynlluniau yn rheolaidd. Mae cynllunio ar gyfer gwella o fewn yr ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau cyfnod allweddol 4 yn 2014 yn y rhan fwyaf o ddangosyddion pwysig.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaid yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth, sy'n cynnwys ysgol Gymraeg gyfagos, coleg

addysg bellach a sefydliadau annibynnol. Mae'r trefniadau hyn yn ehangu'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, nid oes disgybl wedi gadael yn ddigymhwyster ac mae disgyblion yn gallu dilyn eu dewis o gyrsiau yn y chweched dosbarth trwy'r Gymraeg. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i sicrhau ansawdd y cyrsiau mewn partneriaeth a derbyn gwybodaeth am eu disgyblion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i rhieni fynychu cyfarfodydd, yn dosbarthu'r newyddlen 'Llais y Llan', ac yn cyfathrebu'n rheolaidd trwy lythyrau a defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Serch hynny, nid yw'r ysgol wedi llwyddo i gasglu barn rhieni ar holl waith yr ysgol.

Mae trefniadau effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd partner mewn perthynas ag agweddau bugeiliol a lles disgyblion. Mae cydweithio helaeth hefyd rhwng yr ysgol ag ysgolion cynradd mewn perthynas â'r pynciau craidd. Mae hyn yn hyrwyddo dilyniant a pharhad effeithiol trwy rannu methodoleg addysgu a dulliau asesu. Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar y cyd â'r ysgolion cynradd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda'r gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogwyr lleol i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion, er enghraifft drwy roi ffug gyfweliadau ac i ddatblygu agweddau o fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i ddiwallu anghenion y cwricwlwm. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'u hadnoddau dynol ac ariannol i sicrhau deilliannau da i'r disgyblion. Mae'r staff ategol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at lawer o agweddau ar fywyd yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'r bwrsar yn rheoli a monitro materion ariannol yr ysgol yn agos ac yn effeithiol. Mae darpariaeth y chweched dosbarth yn gost-effeithiol.

Mae gan yr ysgol raglen hyfforddiant mewn swydd effeithiol sydd yn cyflwyno cyfleoedd i bob un o'r staff ddatblygu'n broffesiynol. Mae athrawon yn gwylio gwersi athrawon eraill yn rheolaidd er mwyn rhannu arfer dda. Mae gan yr ysgol nifer o weithgorau pwrpasol tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant amddifadedd disgyblion, er enghraifft wrth ddarparu gwisg ysgol, offer TGCh a gwisg chwaraeon i ddisgyblion dan anfantais. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad disgyblion sydd yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dda iawn ar lefel 5 neu'n uwch. Mae perfformiad y disgyblion hyn ychydig yn uwch ar lefel 6 neu'n uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth ond nid mewn mathemateg a Chymraeg o gymharu ag ysgolion y teulu.

Yng ngoleuni'r safonau cadarnhaol, cynigia'r ysgol werth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg wedi gwella ychydig dros y ddwy flynedd diwethaf. Roedd perfformiad yr ysgol yn uwch na'r hyn a disgwylir o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yr ysgol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf wedi bod ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim. Mae'r perfformiad hwn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Serch hynny, mae perfformiad bechgyn yn llawer is na pherfformiad y merched yn y dangosydd hwn.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi gwella'n sylweddol. Serch hynny, mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion ac yn gosod yr ysgol ymysg y 50% isaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd wedi gwella ac yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Roedd cyfartaledd yr ysgol yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Serch hynny, roedd y bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a merched yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 mewn mathemateg dros y ddwy flynedd diwethaf yn gosod yr ysgol ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd perfformiad lefel 2 Saesneg yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Yn 2014, bu cynnydd yn y perfformiad gan osod yr ysgol ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg, roedd perfformiad yr ysgol yn 2014 wedi dirywio ychydig wrth gymharu â pherfformiad y flwyddyn blaenorol. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg yn ei gosod ymhlith y 50% uwch o ysgolion tebyg. Yn 2014, bu dirywiad yn y perfformiad hwn, gan osod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg. Roedd bwlch sylweddol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched mewn Cymraeg a Saesneg, ond nid mewn mathemateg. Roedd y bechgyn yn perfformio'n well o lawer mewn mathemateg na'r merched.

Yn y dangosydd pynciau craidd, roedd perfformiad yr ysgol yn llawer uwch na pherfformiad y teulu o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad y bechgyn a merched ychydig yn uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg. Serch hynny, roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched llawer yn fwy na'r bwlch mewn ysgolion tebyg. Roedd perfformiad bechgyn yn debyg i'r teulu ond roedd perfformiad y merched yn llawer uwch na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn debyg i gyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg.

Yn y dangosydd sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio, roedd perfformiad yr ysgol yn debyg i berfformiad y teulu o ysgolion tebyg. Roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llawer is na chyfartaledd y teulu.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu'n uwch yn y pynciau craidd yn is nag ydynt mewn ysgolion eraill tebyg. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a merched yn gyffredinol yn llai nag ydyw mewn ysgolion eraill tebyg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.  Llwyddodd y rhan fwyaf i gyrraedd trothwy lefel 1 neu 2 ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.  Llwyddodd llawer i ennill lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg, Saesneg, gwyddoniaeth a mathemateg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

Does dim un disgybl wedi gadael yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 heb gymhwyster cydnabyddedig ers i'r ysgol agor yn 2008.  Gwnaeth pob disgybl barhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 y llynedd.

Mae'r ysgol wedi perfformio'n gymharol dda yn ei set gyntaf o ganlyniadau yn y chweched dosbarth.  Yn 2014, llwyddodd 64.5% o ddisgyblion i ennill graddau A-C, sy'n debyg i gyfraddau cenedlaethol,  a 13.9% gradd A ar lefel Uwch Gyfrannol.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn dda iawn ar lefel 5 neu'n uwch gyda phob mesur yn cyrraedd neu'n well na chyfartaledd yr un grŵp o ddisgyblion yn y teulu o ysgolion.   Nid yw'r perfformiad cystal ar lefel 6 neu'n uwch mewn mathemateg a Chymraeg.  Mae perfformiad y disgyblion hyn ychydig yn uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth.  Llwyddodd pob disgybl i ennill Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 1 neu 2 yn 2014.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 140 | 65 | 72 | 3 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 46% | 51% | 2% | 0% | |
| | | 43% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 140 | 37 | 81 | 19 | 3 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 140 | 62 | 60 | 14 | 4 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 44% | 43% | 10% | 3% | |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 140 | 50 | 79 | 11 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 36% | 56% | 8% | 0% | |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 140 | 67 | 63 | 9 | 1 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 48% | 45% | 6% | 1% | |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 140 | 39 | 88 | 10 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 28% | 63% | 7% | 2% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 140 | 58 | 67 | 14 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 41% | 48% | 10% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 139 | 23 | 77 | 29 | 10 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 17% | 55% | 21% | 7% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 140 | 66 | 63 | 11 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 47% | 45% | 8% | 0% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 140 | 13 | 72 | 37 | 18 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 9% | 51% | 26% | 13% | |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 140 | 43 | 54 | 29 | 14 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 31% | 39% | 21% | 10% | |
| | | 29% | 50% | 16% | 4% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 139 | 23 | 74 | 39 | 3 | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 17% | 53% | 28% | 2% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 140 | 56 | 78 | 6 | 0 | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 40% | 56% | 4% | 0% | |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 139 | 44 | 78 | 17 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 32% | 56% | 12% | 0% | |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 140 | 61 | 61 | 15 | 3 | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 44% | 44% | 11% | 2% | |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 140 | 62 | 69 | 9 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 44% | 49% | 6% | 0% | |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 46 | 19 | 25 | 2 | 0 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 41% | 54% | 4% | 0% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 32 | 13 | 16 | 2 | 1 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 41% | 50% | 6% | 3% | |
| | | 28% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 108 | 50 | 50 | 6 | 2 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 46% | 46% | 6% | 2% | | |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 108 | 48 | 50 | 4 | 4 | 2 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 44% | 46% | 4% | 4% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 108 | 59 | 40 | 6 | 1 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 55% | 37% | 6% | 1% | | |
| | | 50% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 108 | 56 | 42 | 5 | 2 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 52% | 39% | 5% | 2% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 107 | 35 | 52 | 10 | 2 | 8 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 49% | 9% | 2% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 107 | 44 | 53 | 5 | 1 | 4 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 41% | 50% | 5% | 1% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 108 | 63 | 39 | 4 | 1 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 58% | 36% | 4% | 1% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 107 | 36 | 56 | 5 | 1 | 9 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 34% | 52% | 5% | 1% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 107 | 47 | 37 | 16 | 3 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 35% | 15% | 3% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 107 | 48 | 46 | 6 | 2 | 5 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 43% | 6% | 2% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 107 | 59 | 42 | 2 | 1 | 3 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 55% | 39% | 2% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 104 | 45 | 44 | 4 | 3 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 43% | 42% | 4% | 3% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 106 | 32<br>30% | 60<br>57% | 12<br>11% | 1<br>1% | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 107 | 52<br>49% | 43<br>40% | 5<br>5% | 2<br>2% | 5 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 104 | 31<br>30% | 43<br>41% | 15<br>14% | 5<br>5% | 10 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 106 | 50<br>47% | 38<br>36% | 10<br>9% | 3<br>3% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 103 | 31<br>30% | 43<br>42% | 11<br>11% | 3<br>3% | 15 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 106 | 54<br>51% | 41<br>39% | 8<br>8% | 1<br>1% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 108 | 49<br>45% | 44<br>41% | 3<br>3% | 5<br>5% | 7 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Huw Collins | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Mr Vaughan Elwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Delyth Gray | Arolygydd Tîm |
| Mrs Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Menai Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Meurig Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a’u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy’n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi’i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |